

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)

Tachwedd 2021

## Cyflwyniad

1. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gerbron y Senedd ar 21 Medi 2021. Cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), ac adrodd arno i'r Senedd erbyn 18 Tachwedd 2021.

## Cefndir

2. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ac fe'i cyflwynwyd gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mai 2021. Cynhaliwyd y Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 10 Medi 2021, a disgwyli'r cynnal y Cyfnod Pwyllgor ar 10 Tachwedd 2021.

3. Yn ôl teitl hir i'r Bil, dyma ei nod: *"to make provision about matters attributable to coronavirus that may not be taken account of in making certain determinations for the purposes of non-domestic rating; and to make provision in connection with the disqualification of directors of companies that are dissolved without becoming insolvent."*



---

## Trosolwg o'r Bil

- 4.** Y tu hwnt i ailbrisiadau ardrethi annomestig rheolaidd, gall trethdalwr gyflwyno her i Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn perthynas â gwerth ardrethol ei eiddo am nifer o resymau, megis cywiro gwallau ffeithiol neu adlewyrchu “newid sylweddol i amgylchiadau”. Mae'r broses ar gyfer hyn yng Nghymru yn cael ei llywodraethu gan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005<sup>1</sup> ac fe'i crynhoir yng [Nghanllawiau Llywodraeth y DU](#).
- 5.** Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, amcan polisi datganedig y Bil yw atal apeliadau ynghylch ardrethi annomestig ar sail newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID-19. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Bil yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol a'r gorffennol, gyda'r darpariaethau'n berthnasol i benderfyniadau'n ymwneud â rhestrau ardrethi lleol a chanolog, a luniwyd neu a gynhelir at ddibenion p'un<sup>2</sup> a ddylid dangos hereditament ar restr ardrethi neu mewn perthynas â gwerth ardrethol hereditament.
- 6.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn egluro mai'r rhesymeg dros hyn yw mai bwriad yr hawl i apelio ar sail newid sylweddol mewn amgylchiadau yw caniatáu ar gyfer digwyddiadau untro sy'n llesteirio gweithgarwch busnes. Mae'r pandemig wedi effeithio ar nifer fawr o fusnesau a'r economi ehangach. Ystyrir effeithiau economaidd ehangach yn yr ailbrisiadau statudol rheolaidd.
- 7.** Eglura'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi bod yn delio â nifer cynyddol o apelau ardrethi annomestig yng Nghymru a Lloegr. O fewn y system ardrethi annomestig, lle bydd ffactorau yn effeithio ar gyflwr ffisegol neu ddefnydd eiddo neu ei ardal fel na fydd modd ei ddefnyddio bellach neu dim ond yn rhannol, megis llifogydd, gall hyn fod yn sail ar gyfer apêl newid sylweddol mewn amgylchiadau. Os bydd apêl yn llwyddiannus, caiff cost yr ardrethi annomestig sy'n ofynnol ei lleihau. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at ostyngiad yn y refeniw a gesglir, a gallai effeithio ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol.
- 8.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn datgan y darparwyd pecyn sylweddol o gymorth wedi'i dargedu i drethdalwyr yng Nghymru yr effeithir arnynt fwyaf gan y pandemig. Mae hyn wedi cynnwys rhyddhad ardrethi o 100% ochr yn ochr â pheynnau

---

<sup>1</sup> OS 2005/758 (Cy.63) (fel y'i diwygiwyd).

<sup>2</sup> Yn fras, ystyr hereditament yw uned eiddo sydd i'w asesu at ddibenion atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig.

---

---

amrywiol o gymorth grant yn sgil y cyfyngiadau a osodwyd ar adegau penodol. Mae busnesau yng Nghymru hefyd wedi bod yn gymwys i gael cymorth a ddarperir ledled y DU.

**9.** Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd cyllid ychwanegol o £1.5bn ar gael unwaith y bydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, i'w weinyddu gan awdurdodau lleol yn ôl disgrisiwn i fusnesau y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl derbyn cyllid canlyniadol ond nid oes rhagor o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd.

**10.** Byddai'r darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn sicrhau nad yw unrhyw benderfyniad ynghylch cost yr ardrethi annomestig gofynnol sy'n ymwneud ag apêl ar sail newid sylweddol mewn amgylchiadau, boed yn ôl-weithredol mewn perthynas â rhestr ardrethu 2017, neu'n ymwneud â chyfnod wedi hynny, yn rhoi sylw i unrhyw fater y gellir ei briodoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r coronafeirws. (yn ddarostyngedig i nifer gyfyngedig o eithriadau statudol). Nid yw'r Bil yn effeithio o gwbl ar fathau eraill o apeliadau.

## **Darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd**

**11.** Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ond yn ymwneud â darpariaethau yng nghymal 1 o'r Bil sy'n ymwneud â thrin apeliadau ynghylch ardrethi annomestig ar sail newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â Covid-19. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag anghymhwysu cyfarwyddwyr yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli.

**12.** Mae'r Bil yn nodi, pan fo angen gwneud penderfyniad perthnasol ynghylch rhwymedigaeth, na ddylid ystyried materion y gellir eu priodoli i'r coronafeirws, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r darpariaethau a nodir yng nghymal 1 y Bil, ac eithrio is-gymal 1(9), yn ymwneud â Chymru.

**13.** Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, gan nad yw ardrethi annomestig yn fater a gadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU**

**14.** Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, oherwydd natur ôl-weithredol y darpariaethau, dim ond trwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir cyflawni'r newidiadau. Mae'r Memorandwm yn nodi "er bod paragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn cynnwys pŵer sydd bellach wedi'i freinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i wneud darpariaeth o'r fath drwy reoliadau, ni all darpariaeth reoleiddiol o'r fath fod yn ôl-weithredol".

---

**15.** Mae'r posibilrwydd o wneud y newidiadau hyn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi'i ddiystyru gan nad oes unrhyw gyfrwng deddfwriaethol addas wedi'i gynllunio o fewn yr amserlen sy'n angenrheidiol. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn egluro:

*"Byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at ansicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Byddai hefyd yn arwain at oblygiadau ariannol sylweddol (gweler isod).*

*"Byddai angen gosod, trafod, pasio a chychwyn Bil Llywodraeth Cymru er mwyn i'r newidiadau fod yn effeithiol yn ôl-weithredol. Byddai unrhyw oedi yn cynyddu'r baich gweinyddol ar drethdalwyr, Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol Cymru. Byddai cydsynio i ddarpariaethau yn y Bil yn ei gwneud yn bosibl datrys y mater yn brydlon, gan ganiatáu i adnoddau gael eu targedu'n well ac i gymorth wedi'i dargedu gael ei roi i drethdalwyr y mae'r deddfwriaeth yn effeithio'n negyddol arnynt.*

*"Byddai'r Bil yn sicrhau bod apeliadau yng Nghymru yn cael eu trin mewn ffordd sy'n gydnaws â Lloegr, a bod trethdalwyr Cymru yn cael eu trin mewn modd cyson."*

**16.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Memorandwm cyn y Pwyllgor hwn, ddydd Llun 18 Hydref, ac wedi hynny ysgrifennodd at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i drafod "materion o ran tryloywder a hygyrchedd". Roedd y llythyr yn nodi nad oedd y fersiwn o'r Bil y cyfeiriwyd ato yn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mai) yn cymhwyso darpariaethau Cymal 1 y Bil i Gymru.

**17.** Gwnaed gwelliannau i'r Bil gan Lywodraeth y DU yn ystod y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi, i ymestyn darpariaethau Cymal 1 i Gymru. Gwnaed y gwelliannau ar gais Gweinidogion Cymru, ond ni chyfeiriwyd at hyn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd wedi hynny ar 21 Medi.

**18.** Roedd y llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd yn nodi'r bwriad, fel a welwyd yn [natganiad ysgrifenedig y Gweinidog ym mis Gorffennaf](#), i "*gyflwyno rheoliadau yng Nghymru a fydd yn cael effaith debyg i'r darpariaethau sydd i'w cynnwys ym Mil y DU, a byddai'r rheoliadau hynny yn gymwys hyd nes y daw Bil y DU yn gyfraith*". Roedd llythyr y Pwyllgor ar 19 Hydref yn datgan, hyd y gwyddai, nad oedd y rheoliadau hynny wedi'u gwneud, gan fynd ymlaen i ddweud: "*Rydym wedi nodi bod Gweinidogion y DU wedi gwneud The Valuation for Rating (Coronavirus) (England) Regulations 2021 ym mis Mawrth, ac y bydd cymal 1(9) o'r Bil yn dirymu'r Rheoliadau os a phan fydd y Bil yn cael ei ddeddfu.*" Roedd llythyr y

---

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gofyn am eglurder gan y Gweinidog ar y mater hwn.

**19.** Mae'r Pwyllgor hwn hefyd wedi nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad chwe wythnos ar gyflwyno rheoliadau o'r fath i atal apeliadau sy'n ymwneud â Covid-19, a gynhaliwyd rhwng 16 Awst a 27 Medi. Ni chyfeiriwyd at yr ymgynghoriad hwn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol chwaith.

**20.** Ar 1 Tachwedd, gosododd Llywodraeth Cymru Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws), yn unol â Rheol Sefydlog 27.2 o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol, i ddod i rym ar yr un diwrnod.

**21.** Mae paragraff 12 o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y rheoliadau yn nodi mai *"prif ddiben yr offeryn statudol hwn yw atal apelau pellach sy'n cyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ymwneud â COVID-19 rhag cael eu cyflwyno, er mwyn diogelu cyllid cyhoeddus. Ar gyfer 2020-21, amcangyfrifwyd bod apelau a gyflwynwyd gan gyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau yn ymwneud â mesurau COVID-19 wedi peri risg o rhwng £70m a £100m i refeniw ardrethi annomestig yng Nghymru."*

**22.** Ymatebodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i lythyr y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 2 Tachwedd, gan nodi bod y Bil wedi'i gyflwyno heb drafod ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru ynghylch a fyddai darpariaethau ar gyfer Cymru yn cael eu cynnwys, a dywed y Gweinidog fod amseriad y Bil yn dod o fewn cyfnod cyn-etholiad y Senedd. Dywedodd y Gweinidog iddi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf yn gofyn i'r darpariaethau gael eu cynnwys, a chafodd ymateb gan y Gweinidog Twf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 3 Medi yn cadarnhau y byddai hyn yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod adrodd.

**23.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn credu bod angen ymgynghori ar y rheoliadau, gan ychwanegu:

*"As a result of timing constraints, it has not been possible to include a clause in the Bill revoking these Regulations. I intend to lay further regulations to revoke the Regulations, which will align with the timing of Royal Assent, should the Bill continue to progress."*

**24.** O ran y diffyg gwybodaeth yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, dywedodd y Gweinidog nad oedd 'cefnidir' wedi'i gynnwys gan fod y Memorandwm yn canolbwyntio ar ddarpariaethau perthnasol y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

---

## Goblygiadau ariannol

**25.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn esbonio nad oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r Bil. Mae'r Bil yn lliniaru'r risgiau ariannol i'r system ardrethi annomestig yng Nghymru, gan ddatgan y byddai'r Bil yn lleihau risgiau ariannol. Amcangyfrifir, pe na bai'r Bil yn cael ei ddeddfu, y byddai colled refeniw ardrethi annomestig i Gymru o rhwng £70 miliwn a £100 miliwn.

## Barn y Pwyllgor

**26.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y darpariaethau yng Nghymal 1 o'r Bil yn gofyn am gydsyniad y Senedd, ac yn nodi'r dadleuon dros wneud y darpariaethau hyn nawr mewn Bil ar lefel y DU: i liniaru risg ariannol sylweddol yn brydlon, i sicrhau cysondeb rhwng cyfundrefnau ardrethi annomestig Cymru a Lloegr, ac i warchod y diben a fwriadwyd wrth gynnig newid sylweddol i amgylchiadau fel sail dros apelio.

**27.** O ystyried yr angen i ddiogelu cyllid cyhoeddus rhag "risg ariannol sylweddol", mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru egluro, cyn y cynhelir dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn, a oes unrhyw oblygiadau ariannol eisoes sydd i'w priodoli i destun y Memorandwm hwn, cyn cyflwyno Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethi (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Cyflwynwyd y Bil ym mis Mai 2021, felly mae'r mater hwn wedi bod yn bryder ers cryn amser. Fel y nodwyd yn llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, cyflwynwyd y *Valuation for Rating (Coronavirus) (England) Regulations 2021* ar 25 Mawrth 2021, a gwnaed rheoliadau Cymru ar 28 Hydref gan ddod i rym ar yr un dyddiad ag y gosodwyd y Rheoliadau hynny gerbron y Senedd, sef 1 Tachwedd.

**28.** Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 21 Medi, ac fe'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor hwn ar 28 Medi. Byddai wedi bod o gryn gymorth i waith craffu'r pwyllgor pe bai'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi cynnwys mwy o wybodaeth, ac wedi bod yn fwy tryloyw, am y broses a'r amserlen ar gyfer is-ddeddfwriaeth yng Nghymru, cyn y gallai deddfwriaeth sylfaenol gael ei phasio o bosibl.

**29.** O ran ceisio cydsyniad ar gyfer newidiadau i'r system ardrethi annomestig yng Nghymru trwy ddeddfwriaeth y DU, mae'r Pwyllgor hefyd yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at alwadau parhaus gan randdeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a Chonsortiw Manwerthu Cymru, i ardrethi busnes gael eu diwygio'n sylfaenol ac ar frys yng Nghymru.

---

**30.** Nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm i wrthwynebu i'r Senedd gymeradwyo'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm hwn.